

“ Mae BCMS wedi rhyddhau data poblogaeth gwartheg yn ddiweddar ar gyfer 1 Gorffennaf 2022, sy'n dangos y bydd cyflenwad gwartheg dethol yn debygol o fod yn fwy niferus am weddill y flwyddyn hon ac i mewn i 2023. Mae Bwletin y Farchnad y mis hwn yn edrych yn ddyfnach ar y ffigurau hyn, sydd hefyd yn adlewyrchu'r cynnydd yn trwybwn gwartheg hŷn ers dechrau'r flwyddyn.

Glesni Phillips – Dadansoddwr Data ”




POBLOGAETH BRESENNOL GWARTHTEG PRYDAIN FAWR

Yn ôl data poblogaeth diweddar gan Wasanaeth Symud Gwartheg Prydain (BCMS), roedd cyfanswm y gwartheg a'r lloi ar lawr gwlad Prydain Fawr yn 8.0 miliwn ar 1 Gorffennaf 2022 - cynnydd o 0.3% (neu 20,600 pen) ar y flwyddyn, ond 0.5% yn llai nag ym mis Gorffennaf 2020. Cofnododd nifer y gwartheg eidion gynnydd o 0.7% i 5.2 miliwn pen, tra bod y fuches odro wedi lleihau o 0.6% i 2.8 miliwn y pen (parhad o'r duedd a welwyd yn y blynyddoedd diwethaf).

Roedd tua 2.9 miliwn o wartheg dros 30 mis oed – gostyngiad nodedig o 2.1% (neu 59,900 pen) ar y flwyddyn, a gostyngiad o 4.4% o'i gymharu â mis Gorffennaf 2020. Mae prisiau gât y fferm ar gyfer gwartheg difa wedi bod yn gryf yn ystod y 6 mis diwethaf ac maen nhw wedi bod o leiaf 50c/kg yn uwch na'r lefelau blwyddyn ynghynt. O ganlyniad, mae'n debygol bod cynhyrchwyr wedi bod yn marchnata stoc hŷn, anghynhyrchiol (yn enwedig gan fod costau mewnbwn ffermydd wedi bod yn cynyddu'n sylweddol). Yn

dilyn hyn, cofnododd benywod dros 30 mis oed (sy'n rhoi syniad o faint y fuches fridio ym Mhrydain Fawr) ostyngiad o 2.0% ar y flwyddyn i 2.8 miliwn. Roedd hwn yn ganlyniad i'r buchesi bridio eidion a llaeth yn cofnodi gostyngiad o tua 29,000 pen yr un.




LOOKING AHEAD

Drwy ddadansoddi'r categorïau gwartheg a'r ystodau oedran, mae'n bosibl amcangyfrif y cyflenwad posibl o wartheg ar y farchnad yn ystod y tymor byr a'r tymor hwy. Roedd gwartheg o dan 30 mis oed ym Mhrydain ar 1 Gorffennaf 2022 wedi profi cynnydd o 1.6% (neu 80,500 pen) ar lefelau blwyddyn ynghynt i bron i 5.2 miliwn.

Mae data ar gyfer gwartheg eidion a gwrywod llaeth 12-30 mis oed yn rhoi syniad o'r cyflenwad posibl o wartheg dethol ar y farchnad yn y **tymor byr**. Roedd 2.5% yn fwy o anifeiliaid ar lawr gwlad o'i gymharu â 2021, sy'n awgrymu y bydd y cyflenwad yn y tymor byrrach yn fwy niferus o'i gymharu â 2021 (gan nodi hefyd y gallai rhai o'r gwartheg hyn gael eu defnyddio fel anifeiliaid magu cyfnewid).

Mae ffigurau ar gyfer gwartheg eidion a gwrywod llaeth 0-12 mis oed yn rhoi rhagolwg o gyflenwad posibl yn y **tymor hwy**. Mae gostyngiad o 0.3% o'i gymharu â'r flwyddyn i bron 2.0 miliwn pen yn awgrymu y gallai cyflenwadau gwartheg dethol ar y farchnad sefydlogi rhywfaint yn y dyfodol (er y bydd rhai o'r gwartheg hyn yn cael eu defnyddio fel anifeiliaid sugno cyfnewid). Cofnododd niferoedd gwrywod llaeth ostyngiad nodedig o 18% ar y flwyddyn - yn debygol o ganlyniad i gynnydd yn y defnydd o semen rhywedd

Newid ym mhoblogaeth gwartheg Prydain Fawr o dan 30 mis (1 Gorffennaf 2022)



llaeth. Gallai gostyngiad yn y categori hwn gael effaith sylweddol ar lefelau cynhyrchu. Gall y defnydd cynyddol parhaus o semen eidion ar wartheg llaeth wrthweithio hyn ymhellach i lawr y llinell gan y bydd mwy o anifeiliaid tebyg i eidion yn dod o'r fuches odro, ond gallai crebachu parhaus y buchesi godro a sugno (oherwydd problemau gan gynnwys costau mewnbwn cynyddol a'r effeithiau cysylltiedig ar broffidoldeb) weithredu fel cyfyngwr ar gyfer twf pellach mewn cynhyrchu cig eidion.

YDYCH CHI'N FFERMWR CIG EIDION NEU DDEFAID YNG NGHYMRU? RYDYM NI AM GLYWED GENNYCH CHI!

Er mwyn deall effaith costau uchel ar y sector ffermio a bwyd yn well, cymerwch ran yn ein harolwg:

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/HCC-CYM>

Crynodeb Misol y Farchnad

GWARTHEG

Prisiau – wythnos yn gorffen 24 Medi

Y pris cyfartalog am wartheg dethol mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru a Lloegr oedd **250.8c/kg**. Roedd hyn:

- + 8.2c ar yr wythnos flaenorol,
- + 22.7c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 52.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 202.5c/kg).

Y pris pwysau marw cyfartalog yng Nghymru a Lloegr ar gyfer bustych oedd **436.4c/kg**. Roedd hyn:

- +1.3c ar yr wythnos flaenorol,
 - 26.6c uwchlaw lefelau blwyddyn yn gynharach.
- Roedd prisiau pwysau marw heffrod yn sefyll ar 432.1c/kg (+0.7c ar yr wythnos), teirw ifanc ar 425.4c/kg (-0.7c), a gwartheg difa ar 338.1c/kg (-0.2c).

Trwybwn – Awst 2022

- Cyfanswm y trwybwn gwartheg mewn lladd-dai yn y DU = 223,300 pen – cynnydd o 2% ar y flwyddyn
- Cyfanswm y trwybwn gwartheg dethol = 162,000 pen - i fyny 1% ar y flwyddyn.
 - bustych -1%, heffrod +2%, a theirw ifanc +12%.
- Cyfartaledd pwysau carcassau gwartheg dethol = 342.4kg (-3.3kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn gwartheg llawn-dwf = 55,300 pen - i lawr 1% ar y flwyddyn.

DEFAID

Prisiau – wythnos yn gorffen 24 Gorffennaf

Pwysau byw cyfartalog wŷn dethol SQQ mewn marchnadoedd arwerthu yng Nghymru oedd **222.8c/kg**. Roedd hyn:

- - 6.6c ar yr wythnos flaenorol,
- + 8.0c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 43.3c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 179.5c/kg).

Prisiau mamogiaid difa cyfartalog mewn marchnadoedd da byw yng Nghymru oedd £53.40/pen. Roedd hyn:

- - £6.00 ar yr wythnos flaenorol,
- £4.40 o dan lefelau cynharach y flwyddyn.

Prisiau wŷn pwysau marw Prydain fawr ar gyfartaledd oedd 524.8c/kg (+1.2c ar yr wythnos).

Trwybwn – Awst 2022

- Cyfanswm y trwybwn defaid mewn lladd-dai yn y DU = 1.1 miliwn pen – cynnydd o 0.5% ar y flwyddyn.
- Trwybwn cig oen = 1.0 miliwn pen – cynnydd o 0.4% ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass cig oen cyfartalog = 19.7kg (-0.1kg ar y flwyddyn).
- Trwybwn mamogiaid a hyrdod difa = 111,000 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.

MOCH


Prisiau – wythnos yn gorffen 17 Medi

Roedd Pris Mochyn Cyfan Manyleb yr UE (APP) ym Mhrydain Fawr yn **203.7c/kg**. Roedd hyn:

- + 1.0c ar yr wythnos flaenorol,
- + 43.8c o'i gymharu â lefelau blwyddyn yn gynharach,
- 44.5c yn uwch na'r cyfartaledd 5 mlynedd (cyfartaledd 2017-21: 159.2c/kg).


Trwybwn – Awst 2022

- Cyfanswm y trwybwn moch mewn lladd-dai yn y DU = 952,300 pen – cynnydd o 1% ar y flwyddyn.
- Trwybwn moch heb fagu = 932,100 pen – tebyg ar y flwyddyn.
- Pwysau carcass moch heb fagu cyfartalog = 88.0kg (+1.7kg ar y flwyddyn)
- Trwybwn hwch a baedd = 20,200 pen - dros 70% yn uwch ar y flwyddyn.




Cynhyrchiant Cig Eidion a Chig Llo y DU
Awst '22

73,000 tonnelli
+0.1% b-a-f



Cynhyrchiant cig defaid y DU
Awst '22

22,700 tonnelli
-1% b-a-f



Cynhyrchiant porc y DU
Awst '22

84,500 tonnelli
+2% b-a-f

